# Altar Sheet for Celebrants of Mass in the Welsh Language

## THE PRAYER OVER THE GIFTS - ending

**…Trwy Grist, ein Harglwydd.**

*But if it ends with a mention of Jesus, then*

**…sydd yn byw ac yn teyrnasu yn oes oesoedd.**

## THE EUCHARISTIC PRAYER

**Yr Arglwydd a fo gyda chwi.**

A chyda thithau.

**Dyrchafwn ein calonnau**

Yr ydym wedi'u dyrchafu at yr Arglwydd.

**Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.**

Addas a chyflawn ydyw.

< Rhaglith >

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd,**
**Arglwydd Dduw'r lluoedd.**
**Mae nef a daear yn llawn o'th ogoniant.**
**Hosanna yn y goruchaf.**
**Bendigedig yw'r Hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.**
**Hosanna yn y goruchaf.**

## PAGE TURN TEXT: EUCHARISTIC PRAYER 2

**Am hynny, Arglwydd Dad,**
**gan goffáu ei farwolaeth a'i atgyfodiad ef,**
**yr ydym yn offrymu i ti fara'r bywyd a chwpan iachawdwriaeth,**
**gan ddiolch i ti am weld yn dda ein galw ni**
**a'n derbyn i sefyll yn weision ger dy fron.**

## PAGE TURN TEXT: EUCHARISTIC PRAYER 3

**Am hynny, Arglwydd,**
**gan goffáu dioddefaint gwaredigol dy Fab,**
**a'i atgyfodiad nerthol a'i ddyrchafael i'r nef,**
**a chan ddisgwyl ei ddyfodiad drachefn,**
**yr ydym yn ddiolchgar yn offrymu i ti**
**yr aberth byw a sanctaidd hwn.**




## *To include St Joseph:*

**... Joseff [Fendigaid] hefyd, ei phriod ...**